"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1900. [RHIF 156.

CYNWYSIAD.

	TUD.
Carmarthen College	... 269
Amcan Eglwys	... 272
Myfyrdod ar Ddiwedd y Cynhauaf ...	... 277
Papyrau Ap Cynon	... 282
Manion ac Hanesion	... 284
Priodasau	... 286
Marwgofion	... 287

PRIS TAIR CEINIOG.

Joseph Williams, Argraffydd, Swyddfa'r "Tyst," Merthyr.

YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1900. [RHIF 156.

CARMARTHEN COLLEGE.

(*Continued.*)

10. JOSIAH REES (1785-6).

JOSIAH REES was born in the parish of Llanfair-ar-y-bryn, near Llandovery (Carm.), on October 2nd, 1744, being the son of the Rev. Owen Rees [1717(7)-1768], of Cefnarthen,[1] and Mary [1718-1818], his wife,[2]—a remarkable woman, whose intellectual force and shrewd knowledge of life must have largely influenced the destinies of the Rees family in after years. His schoolmaster was the Rev. Solomon Harries, the future Swansea Tutor. From him he proceeded to Carmarthen, where he studied for four years on the foundation of the Presbyterian Board,[3]—his course terminating at Christmas, 1766. During the last two years or more of his sojourn at the Academy, he had supplied statedly at Gellionen (Glam.), of which church he now became the resident minister, his ordination taking place on August 5th, 1767.[4]

1. Afterwards minister at Pentretygwyn and Aberdare. He was an Arminian, and, before he died, an Arian.

2. Her maiden name was Howell; she survived a second husband (Dr. Bevan of Aberdare), and spent the last twenty years of her life at Gelligron. *Mon. Rep.*, 1818, p. 143, has an interesting account of her.

3. He may have been supported by the Congregational Board also. This Body had a large number of students "in Wales," during 1757-1821, including one "Josh. Rees" (1761-5), who cannot be shewn to have had any connection with the Academy conducted by Jardine and his successors. It is certain that one of these students—John Abel—was at the Swansea Academy (1790-4); and the writer suspects that a close examination of the Minute and Account Books of the Board—he has only had access himself to Dr. Newth's volume of Extracts in the New College Library—would reveal many points of contact with Carmarthen, even during the period that immediately followed the retirement of Evan Davies.

4. The inscriptions on the inside and outside of the chapel point to 1764 as the

He held this charge, from first to last, for "more than forty years," and before he died he re-built the chapel.[5] What his theology was at the commencement of his ministry does not appear,[6] but it may be inferred from his parentage and education that he was anti-Calvinistic. In 1785 he was, on the testimony of his son, an Arian. On the same authority, he was, in later years, a Unitarian.[7]

To his pastoral duties Josiah Rees added the occupation of a schoolmaster so long as his health allowed, and for one session (1785-6), he acted as Divinity Tutor at the Presbyterian Academy,[8] which was then located at Swansea. He died on September 20th, 1804, at Gelligron, in the neighbourhood of Pontardawe,[9] where he had resided from at least 1775.[10] He appears to have been a man of considerable learning and ability; and enjoys the distinction of having projected and conducted what was practically the first Welsh periodical (1770).[11] He was twice married, and had a large family of sons and daughters,[12] several of whom attained positions of much dignity and usefulness. His third son, Dr. Thomas Rees, was educated at Carmarthen College (1799-1802), and after brief pastorates at Ipswich (1803-5), and Gellionen (1805-6), settled in London, where he served on the Presbyterian Board for forty years, during the last twenty-eight of which he acted

---

year from which his ministry was reckoned. The date of ordination is from Josiah Rees's *Register of Christenings* at Somerset House.

5. "Rebuilt 1801.....in the 38th year of his ministry hereat." So ran the original inscription; but 1801 was afterwards altered—by an unskilled hand—to 1800, which is the date given in Dr. Thomas Rees's *Beauties of South Wales*.

6. The history of the Congregation itself affords little help in determining the point, Josiah Rees's immediate predecessor—one Thomas Davies, apparently—not having been identified.

7. *Beard*, p. 201; *Mon. Rep.* 1818, p. 144. It is convenient to speak of "Arians" and "Unitarians" when contrasting the two schools; but it must be remembered that they only differed about the pre-existence of Christ. Arianism is, strictly speaking, only a variety of Unitarianism.

8. Dr. Charles Lloyd's statement that he only attended "two or three days in a week" (*Particulars*, p. 33), is borne out by Peter (*Autob.* p. 10).

9. Obituary notices will be found in *Univ. Theol. Mag.*, 1804; *Swansea Cambrian*, 1804; and *Mon. Mag.*, 1805.

10. Registers at Somerset House.

11. The editorship has been disputed, but see Rees's *Beauties of South Wales*, p. 670. Lewis Morris had brought out a quarterly publication in 1735 (two numbers only).

12. His first wife, Catherine, daughter of Evan David Howell, his mother's brother, died October 30th, 1768, leaving an only daughter, Mary [1767–1822], who by her marriage with John Richards of Stanley (Lanc.) became the grandmother of Thomas R. Davies, of Philadelphia, U.S.A., (for whom see *Ymof.*, 1892, p. 33). His second wife, Mary [1747-1829] was the daughter of Thomas Jones, of Llandilo-Fawr and Hester, own niece (through her father), to Tutor Samuel Thomas. Her he married at St. Peter's Church, Carmarthen, Dec. 7th, 1769. The following is a complete list of their children, being derived from a family pedigree, and other reliable sources:—

1. Owen [1770-1837]; died unmarried at Gelligron. A partner in Longman's and Co.

as Secretary.[13] He is the author of the article in Beard's *Unitarianism in its Actual Condition* (1846), to which such frequent appeal has been made by the present writer.



REV. JOSIAH REES

2. Hester; born 1772; died young.
3. Josiah [1773-1862]; a merchant in the East for many years. He married a Miss Suter, of whom he had *inter. alios.* (a) Dr. George Owen Rees, F.R.S., of Guy's Hospital, who died unmarried in 1889; (b) Sir Josiah Rees, Chief Justice of Bermuda, died 1899); and (c), Eliza, (died 1887), wife of William Alfred Jevons, of Liverpool.
4. Hester [1775-1809]; died at Gelligron, unmarried.

Josiah Rees published:—1. *Trysorfa Gwybodaeth, neu Eurgrawn Gymreig* (1770), which ran through fifteen numbers. 2. A Welsh translation of *Henry Read's Catechism* (1770). 3. A Welsh translation of *Mason's Self Knowledge* (1771) 4. *Pregeth yn erbyn Enllib a phob Gogan-air* (1776). 5. *Pregeth am y Drwg o Farnu yn Galed am Ereill, a'u Dirmygu* (1794). 6. *A Welsh Hymn-Book* (1796, 2nd edition, 1797).

(To be continued.)

AMCAN EGLWYS.

[*Papyr a ddarllenwyd yn Nghyfarfod Gweinidogion Undodaidd Morganwg, yn Merthyr, nos Lun, Hydref* 15*fed*, 1900, *gan y Parch. W. J. Phillips, Nottais, yn nghyda sylwadau y gweinidogion ereill arno.*]

PRIF amcan Eglwys yw gwrteithio bywyd addfwyn, ernest, a defosiynol, oblegid heb addfwynder a difrifolder nis gall gwaith bywyd gael ei gyflawni yn briodol: bydd y byd yn faes ymryson, ein perthynas y naill â'r llall yn berthynas o anghariad, ac ni nawseiddir yr enaid gan feddyliau dyrchafedig. Nid wyf yn tybied fod un eglwys yn dyfod i fyny yn hollol â'r amcan hwn.

Nid yw ein Heglwys ni yn dyfod i fyny â'r amcan, a rhaid mai ein bai ni, weinidogion, yn benaf yw hyn; pa cyn belled y gellir ein beio, mae yn anhawdd dyweyd. Nid ydym, bob amser, yn cyfarfod âg angenion crefyddol ein cynulleidfaoedd. Mae tymher feirniadol, a hyny yn unig, sydd yn aros i ddosranu teimlad cyn rhoddi mynegiad iddo, ac wed'yn yn ei daflu yn ddirmygus o'r neilldu, wedi distrywio llawer i weinidog; ac mae'r duedd i beidio cael un help nac ystyr mewn emyn neu mewn adnod o'r Beibl, am nad yw yr ystyr lythyrenol yn wir, wedi distrywio llawer rhagor trwy wneyd y gwasanaeth yn rhy ddeallol, yn rhy oer ac anfarddonol.

5. Thomas [1777-1864]; married Elizabeth Jacks of Kennington (Surrey), who in 1825 gave birth to John Rees, the owner of the pedigree referred to, an Artist at Sunbury-on-Thames.
6. Hannah [1779–1842]; died at Gelligron, unmarried,
7. Richard [1781–1861] of Longmans; died without surviving issue. His wife was Elizabeth, daughter of James Curtis [1742-1820], a Swansea Banker, through whom the portrait which accompanies this article came into the writer's family.
8. Sarah [1783–1851]; died unmarried.
9. Samuel [1785–1786].
10. Samuel [1789–1826]; died unmarried at Constantinople.

13. A good account of his career will be found in the *Dictionary of National Biography.*

Ni wneir crefydd, yn fwy na barddoniaeth, i fyny yn gyfangwbl o ffeithiau a ellir ganfod yn eglur. Heb wres, ac heb y ffeithiau hyny na theimlir ac na welir mohonynt ond yn aneglur—mae ymadroddion crefyddol yn oer ac yn annyddorol. Wrth wres, nid wyf yn golygu rhyw wylltedd iaith—ychydig a brisiaf ohono—ond argyhoeddiad deallus yn cael ei anog gyda phob difrifoldeb a serch.

Yr ydym wedi bod yn gweiddi gormod yn erbyn teimlad, ac wedi bod yn gosod yr holl bwys ar eglurdeb deallol. Y canlyniad yw, fod pregethau ein gweinidogion wedi bod yn debycach i draethodau dysgedig nag i genadwri a'i hamcan i ysbrydoli ac hyfforddi.

Mae eglurdeb deallol yn beth mawr; ac heb rhywfaint ohono, ni fydd crediniaeth dyn ond tryblith druenus: ond heblaw rhyw gymaint o eglurdeb a chysondeb, rhaid i ni gael ychydig o frwdfrydedd i roi bywyd i argyhoeddiad, neu fe syrth ar y *meddwl* fel rhyw *broblem* ddyrys mewn *mathematics*, pan y dylai dd'od i'r *enaid* megys nodyn swynol o gerddoriaeth, neu ddarn tlws o farddoniaeth. Nid yw, o bosibl, yn ddoeth i ni beidio cael ein cynhyrfu wrth ymwneyd â chwestiynau sydd a fynont â'n buddianau ni. Mae adegau pryd mae teimlad yn ei le, oblegid mae llawer o'r dygwyddiadau a gymerant le yn y byd yn drist, a rhoddant y syniad i ni o ddirgelwch pethau. Mae y byd ar gyfer rhywbeth heblaw astudiaeth galed. Mae gwrteithio y deall o bwys mawr, ond nid yw ond rhan o ddyddordeb bôd dynol. Mae maes o syniad, moes, a chrefydd i'w gael, byd o deimlad a chyffroad, sydd a fyno â helyntion mwyaf dyn—maes nas gall yr un gweinidog ei esgeuluso ond ar berygl niweidio yr achos sydd yn anwyl ganddo.

Mae yr Eglwys, yn naturiol, yn gyfrwng dyngarol, yn ganolfan llawer o weithredoedd o elusengarwch. Y sawl a geisiant wneyd fwyaf dros eu cyd-ddynion, rhaid iddynt eu helpu mewn dwy ffordd—yn allanol ac yn fewnol. Rhaid i ni ymdrechu gwella amodau cymdeithasol bywyd, fel y porther ac y dillader y newynog, ac fel y dihuner ac y nerther, ar yr un pryd, y bywyd mewnol.

Ar bob adeg yn ei hanes, mae yr Eglwys Gristionogol wedi bod yn ganolfan gweithredoedd o dosturi, a byddai yr hyn a wnaeth i liniaru trueni'r byd yn ddigon i gyfiawnhau ei bodolaeth. Mae pob eglwys yn rhwym o wneyd yr oll a all o'r gwaith hwn o dosturi, er nad yw yr alwad mor fawr mewn un ardal ag yw yn y llall.

Nid pob gweinidog all fod yn ddyngarwr ymarferol. Gall fod yn dyner ac yn haelionus, ond eto yn ddiffygiol yn y farn hono o wneyd y goreu o'i elusenau ei hun, neu o elusenau pobl ereill; yn wir, gall fod yn ddyn hynod garedig, ond yn gâs ganddo fyned o dŷ i dŷ i holi beth yw helynt y bobl sydd yn byw yno. Ond mae pob eglwys, a phob adran o'r eglwys, wedi dysgu mai y penaf o'r holl rinweddau yw cariad—nid rhoddi elusenau yn unig, ond wedi dysgu yr haelfrydedd a'r anian odidog hono sydd yn cymhell y weithred garedig, ac yn peri i ni gymeryd dyddordeb yn yr angenus, i'w helpu hwy heb eu gwneyd yn dlodion, i'w helpu hwy i helpu eu hunain

Yn ddiweddaf—neu, o bosibl, y cyntaf ddylasai fod—dylem ymdrechu gwneyd ein heglwysi yn demlau gwirioneddol i'r Anweledig. Anweledig, ond nid anadnabyddus. Dyledswydd o'r pwys mwyaf ydyw gwneyd yr Eglwys yn le o wir addoliad, o wir weledigaeth a dadblygiad ysbrydol; yn le, nid yn gymaint i *ymresymu* yn nghylch Duw ag i'w ganfod; yn le, nid yn gymaint i ddyweyd wrth ddyn yr hyn yw ei ddyledswydd ag i'w lanw â'r fath serch at ddyn fel na fo eisieu dyweyd wrtho beth y dylai ei fywyd fod; yn deml, nid yn gymaint i glywed darlithiau dysgedig ar athroniaeth, celf, a gwyddor, ag i'n dwyn yn nes at Ysbryd Crist, a'r ffynon fawr ysbrydol hono a ddygodd Efe i'r amlwg yn ei holl gyflawnder, o dan holl hunangariad a chreulondeb y byd.

Wrth y ffynon hon y penliniodd Channing, Parker, a Martineau, a holl broffwydi, saint, a diwygwyr gwironeddol yr oesoedd Cristionogol, ac ohoni yr yfasant.

Mae gan Dr. Martineau yr ymadrodd prydferth hwn yn ei lyfr, *Seat of Authority*: "Cydymagweddu â Duw yw i'r enaid dynol yr unig dangnefedd, yr unig iawnder, yr unig brydferthwch; gweled pethau fel y gwêl Ef hwy, dyna yw gwirionedd; gweithredu yn unol â'i reol Ef, dyna beth yw buddugoliaeth."

Dylai cynulliadau ein heglwysi fod, cyn belled ag mae'n bosibl, yn gymdeithas y saint, cymdeithas yn ymeangu bob dydd. Mae hen wrthgloddiau yn cael eu bwrw i lawr, a cha y sawl sydd yn credu yn yr ysbryd, ac nid yn y lythyren, gyfeillach yn eu cyfarfodydd sydd yn dyrchafu ac yn puro.

SYLWADAU YN CODI ODDIAR BAPYR Y PARCH. W. J. PHILLIPS.

Credaf mai angen mwyaf ein henwad yw *dihuno*. Dihuno allan o'n difaterwch a'n bydolrwydd i sylweddoli pwysigrwydd y bywyd ysbrydol. Awn i'r addoldy i glywed y pregethwr yn llefaru, ac nid i addoli Duw. Os na fydd y pregethwr wrth ein bodd, byddwn yn aros gartref. Dylasai y rhan ddefosiynol gael mwy o le yn ein gwasanaethau. Nid oeddwn yn hoffi y modd dirmygus y gwrthodwyd y cynygiad am fabwysiadu ffurfwasanaeth, am fod y cynygiad wedi ei ddwyn ger bron er mwyn i'r cynulleidfaoedd gymeryd mwy o ran yn y gwasanaethau crefyddol. Y mae arnom eisieu dihuno i ymwybyddiaeth o'r ffaith fod bendithion i'w cael wrth *gyd*-addoli na cheir mohonynt mewn un modd arall. Y mae arnom angen dihuno i'r ffaith fod Duw Ei Hun yn gofyn i ni fod yn ffyddlawn i'n hargyhoeddiadau, hyd yn nod pan fyddo y rhai hyny yn anmhoblogaidd. Mewn gair, yr ydym o'r ddaear yn hynod ddaearol, ac y mae yn bryd i ni ddihuno i'r gwirionedd fod crefydd "ugain swllt yn y bunt" yn annigonol i ddiwallu angenion dyfnaf yr enaid dynol. *Dihunwn* o'n cysgadrwydd. —*Dafydd Rees.*

GYDAG un eithriad, y mae darllenwr y papyr a'r rhai fu yn sylwi arno yn cytuno, fod tuedd gyffredin yr Undodwr i resymoli gormod. Credai Dr. Martineau yr un peth. O'r tu arall, deil Mr. Tudor Jones, yr hwn sydd wedi ei ddwyn i fyny mewn awyrgylch wahanol i ni oll, fod y perygl yn fwy i'r Teimladau gael arwain i benrhyddid. Wrth gwrs, rhaid wrth fantoliad priodol o'n holl natur—Rheswm i ffrwyno'r Teimladau, ac i gadw Ffydd yn y cyfeiriad iawn. Yn narlun ardderchog Syr Noël Paton, ceir Rheswm a Ffydd yn teithio law-yn-llaw—Rheswm wedi ei ddilladu megys milwr o'r Canoloesoedd, â'i gledd yn ei law, yn swmpo ei ffordd bob cam yn mlaen trwy dywyllwch ac anhawsderau bywyd, tra Ffydd megys morwyn ieuanc brydferth uwchlaw, â mwgwd ar ei llygaid, ond yn arwain i fyny i'r goleuni uwchben. Y mae Rheswm a Ffydd yn gyffelyb yn hanfodion—Rheswm gyda Ffydd, nid Rheswm heb Ffydd, na Ffydd heb Reswm, ond y ddau, a phob un yn ei le, os am ddadblygiad cydbwys o'r holl ddyn heb ei ddibrisio mewn dim. Nid da eithafoli yn unrhyw gyfeiriad, eithr ceisiwn yn hytrach fantoliad priodol. Ni wna gorddadblygiad o un rhan ond gwanychu y rhanau ereill.

Nid yr un yw yr *Ideal Church* yn ngolwg pawb, ac nid yr un yw syniad pawb am ei ddyledswydd fel gweinidog. Boreu heddyw galwodd gwr dyeithr arnaf—llymiog ac ysgrwblyd yr olwg arno. Y tufewn i'r wisg cefais allan hen gyfaill, anwyl iawn i mi fwy na 40 mlynedd yn ol. Wedi bod yn y weinidogaeth am flynyddau, fe drodd ffawd yn ei erbyn, a syrthiodd yn raddol, nid o esgeulusdod, ac nid o ddewisiad, i sefyllfa o dlodi adfydus. Yn ei gyflwr hwnw, fel rhyw *double* i Count Tolstoi, fe deimla ei fod yn nes sylweddoliad nag erioed o'r hyn y dylai apostol fod, heb aur, nac arian, nac efydd, nac ysgrepan, &c. Gwna hyn iddo ymfalchïo yn ei gyflwr a'i waith, fel y mae yn amheus ganddo ped agorid y llwybr i'w hen faes iddo, a wnai fanteisio arno. Yn naturiol yr oeddwn yn tosturio wrtho, ond nid oedd angen. Yr oedd yn berffaith hapus. Caiff wrandawiad yn awr lle na chawsai o'r blaen, a theimla ei fod yn gwneuthur gwaith gwerthfawr nad oedd o fewn cyrhaedd iddo yn y weinidogaeth reolaidd, gwaith na fedr yr eglwysi gyffwrdd âg ef. Er yn ei garpiau, teimlwn fod o fy mlaen ysgolhaig rhagorol, boneddwr trwyadl, Cristion syml, a dyn y gallwn dynu fy hèt iddo.

Y mae papyr Mr. Phillips, a'r sylwadau oll, wedi bod yn ddyddorol, yn adeiladol, ac yn werthfawr.—*R. J. J.*

CYTUNAF yn llwyr â phapyr Mr. Phillips am yr angenrheidrwydd i ni *deimlo* mwy gyda chrefydd. Mae teimladau cynes yn angor i ddyn yn ystormydd bywyd: ond sut mae rhoddi bôd i'r teimlad hwn? Yn gyntaf, trwy *wybod;* ac yn ail, trwy gario y wybodaeth hono i weithrediad Gwybodaeth wedi ei throi yn weithred yw'r teimlad goreu, yn nghyda myfyrdod ar yr hyn sydd oreu, ac ar Dduw—ar yr hyn nad yw eto, ond a fydd, ac a fydd trwy ymdrech personol. Fel hyn bydd ein crefydd yn ymafael yn yr oll o'n bywyd.—*W. Tudor Jones.*

AMCAN penaf yr Eglwys ddylai fod, hyrwyddo y berthynas *ysbrydol* rhwng dyn a Duw, fel y gallai dyn addoli Duw mewn ysbryd a gwirionedd; ac er cyrhaedd yr amcan clodwiw hwn, credaf y dylid rhoddi sylw dyladwy i'r rhan ddefosiynol o'n gwasanaeth crefyddol: nid edrych ar y rhan hon fel ail beth, ond fel yr *un peth angenrheidiol.* Gwir fod ymchwilio am a phregethu y gwirionedd yn goleuo y deall, adeiladu y meddwl, puro y serchiadau, glanhau y galon; ond nid yw y cyfryw ond llawforwynion i'r dyben penaf. Dylai yr Eglwys, hefyd, amcanu at gyflawni gofynion yr ail orchymyn, sef, "Car dy gymydog fel ti dy hun," a thrwy hyny ddangos i'r byd fod dynion yn frodyr a chwiorydd (ac nid gelynion) y naill i'r llall, yn blant y Tad Nefol. Ni ddylai gwahanol *raddau* fodoli yn yr Eglwys; ni ddylai neb gael ei ystyried yn uwch na'r llall, ond pawb yn gydradd, pob uchelgais hunanol yn cael ei lyncu i fyny gan awydd *i wasanaethu.* Byddai hyn yn dwyn ei haelodau i garu dyn yr hwn a welir, a Duw yr Hwn *ni* welir. A'r canlyniad fyddai, "Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear ewyllys da;" byddai drygioni yn cael ei orchfygu gan ddaioni, anghyfiawnder gan gyfiawnder, ewyllys Duw yn cael ei gwneyd ar y ddaear, fel ag y mae yn y nefoedd, heddwch yn teyrnasu o fôr i fôr, dyn yn esgyn yn uwch ar hyd grisiau dyrchafiad, perffeithrwydd yn bosibl i'w gyrhaedd (yn amser Duw), drwy fod dyn yn ceisio perffeithio mewn pob gweithred dda yma ar y ddaear. Dyma waith yr Eglwys er d'od yn "Eglwys y Duw Byw."—*D. Evans, Wig.*

WELE dri amcan mawr bodolaeth yr Eglwys ar y ddaear; ac yn fy nhyb i, cynwysir ynddynt bob amcan arall:—

1. *Dysgu* hanfod crefydd i'w deiliaid ac i'r byd.

2. Llanw pawb âg *ysbryd* crefydd; hyny yw, ysbryd Iesu o Nazareth.

3. Bod yn *oleuni* i bawb: yn ganwyll i oleuo yr holl dŷ; yn oleuni ar fryn nas gellir ei guddio, er dylanwadu ar bawb i gyflawni gorchymyn Iesu: "Llewyrched felly eich goleuni ger bron dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tad yr Hwn sydd yn y nefoedd."—*J. Ewart Jenkins, Dowlais.*

RHAI o amcanion glanaf Eglwys Dduw er sicrhau llwyddiant:—

(*a*) Meithrin parodrwydd i dderbyn goleuni o bob cyfeiriad.

(*b*) Pregethu gwirioneddau, yn unol â'r goleuni goreu, mewn gair a gweithred, er adeiladaeth foesol ac ysbrydol.

(*c*) Meithrin cydweithrediad yn nglŷn â phethau moesol ac ysbrydol: "Cadw undeb yr ysbryd yn nghwlwm tangnefedd."

(*d*) Rhoddi pwyslais ar gymeriad, cariad, ac ar bob elfen ag sydd yn gwahaniaethu dyn, fel bôd cymdeithasol ac addolgar, oddiwrth greaduriaid ereill.

(*e*) Meithrin parodrwydd i gysuro a chynorthwyo "cymydog" mewn adfyd a thlodi.

(*f*) Hawlio cysondeb yn ffurfiad ei chymeriad. Yna cawn deyrnas gref, seneddau uniawn, ac Eglwys oleuedig ac ysbrydoledig.—*T. J. J.*

The Church should stand for righteousness: the ideal it should strive to make its members realize is that of *being* and *doing* good. This is the groundwork of all religious aspirations, on which the Christian character must rest. Christ made righteousness the basis of His religion. The historic churches of Christendom have failed to regenerate the world because their attitude has been prevailingly unrighteous. Christianity implies such a lofty morality that the Church should guarantee its aid and co-operation to all movements to clear and purify social life, to improve the moral and spiritual status of the masses; *and when this is accomplished, to aid in elevating them socially*; but a moral and spiritual regeneration must always precede the granting of temporal benefits; Christ's religion implies this.

We should not do, as other religious bodies are said to be doing, simply to gather the multitude at any price. The Church does not exist for popularity merely, but only for edification of the masses, not for power and display of authority. We should try to get to know whether the means employed by other organizations are good in themselves according to the test of righteousness. We should not fill our chapels anyhow; but whatever the number, to make good, sober, moral, and religious men and women of them. Above all, the individuals making up the Church should at all times be on their best behaviour, mentally, morally, and spiritually. The Church stands for these things.—*D. J. Williams, Merthyr Tydfil.*

MYFYRDOD AR DDIWEDD Y CYNHAUAF.

UNWAITH yn ychwaneg mae y cynhaeaf drosodd! Mae yr ŷd wedi ei gasglu i'r ydlanoedd a'r ysguboriau, a phlant y ddaear yn teimlo yn ddedwydd ac yn ddiolchgar am ei bod felly, ac yn edrych yn mlaen gyda ffydd a gobaith at y gauaf oer a garw fydd yn fuan ar ein gwarthaf. Eleni eto, fel arfer, mae yr hen ddaear anwyl wedi rhoddi yn hael o'i chyfoeth anherfynol, ac wedi cyflenwi meibion a merched dynion âg angenrheidiau bywyd. Yn gynar yn y flwyddyn bu y ffermwyr yn aredig, yn hau ac yn llyfnu, ac yna, yn iaith y Beibl, maent wedi bod yn cysgu ac yn codi nos a dydd, a'r had yn egino ac yn tyfu yn y modd nas gwyddant hwy; yn gyntaf yr eginyn, yna y dywysen, ac yn olaf yr ŷd yn llawn yn y dywysen. Mae y meusydd yn dangos y cyfnewidiad mawr yma—o fod yn wyrddlas ar y dechreu, maent yn dyfod i fod yn felyn-wyn ac yn barod i'r cryman. Am enyd y mae gwaith Natur neu Ragluniaeth—yn y diwedd gwaith Duw—yn terfynu, ac y mae tro dyn yn dyfod i wneyd ei ran. Mae y medelwyr

yn finteioedd yn dyfod allan gyda'u crymanau a'u peirianau er tori yr ŷd i lawr ; yna mae yr haul mawr yn gwasgar ei belydrau llachar arno, a'r gwynt mwynaidd yn chwythu ei awelon drosto a thrwyddo, fel mewn ychydig amser, gydag ychydig ymdrech ar ran dyn, mae yn dyfod yn barod i'w gludo i'r ysgubor. Yn hyn, fel yn mhob peth arall, yr ydym yn gweled cydweithrediad parhaus dyn a Duw. Dyma ydyw un o gyfreithiau neu ddeddfau mwyaf pwysig y bydysawd, sef mai cydweithwyr à Duw ydym, ac y mae yn rhaid i bob un ohonom i sylweddoli hyn yn llwyr ac yn ymarferol cyn byth y gallwn wneuthur ein bywydau yn wir lwyddiant. Fel y clywsom gan un o'n gweinidogion ychydig amser yn ol, posiblrwydd bendith yn unig mae Duw yn roddi i ni, ac y mae yn gorphwys arnom ni yn unigol neu fel cyfangorff i wneuthur y posiblrwydd yn ffaith—i ddwyn i ben fwriadau ac amcanion Duw er ein budd a'n lles ein hunain. Mae Ef wedi rhoddi i ni y ddaear a'i hadnoddau, mae yn rhaid i ninau ei thrin a'i gwrteithio, ac i hau yr had ; mae Ef yn danfon y gwres a'r oerfel, y gwlaw a'r gwynt, yn eu pryd, ac yn achosi y tyfiant, a'r cynydd, a'r ffrwyth, ac y mae yn rhaid i ninau yn amser y cynhauaf i fedi a chasglu yr ŷd, ac i weithio wrtho nes y delo yn ymborth briodol i ddyn ac anifail—yn gynaliaeth i'r gweithiwr ac yn fara i'r bwytawr. Yn y modd hwn y mae Duw yn cynorthwyo dyn i helpu ei hunan.

Nid yw yr hyn wyf wedi ddesgrifio mor anmherffaith ond esiampl o'r hyn sydd yn cymeryd lle yn wastadol yn y byd materol. Mae yr un peth yn union yn wir yn y byd meddyliol, moesol, a chrefyddol. Yma eto mae Duw a dyn yn gydweithwyr. Mae Ef wedi ein donio â galluoedd mawrion a phwysig yn y cyfeiriad hwn, ond y mae yn rhaid i ni eu defnyddio, a'u defnyddio yn iawn, cyn y gallant fod o un lles i ni. Posiblrwydd bendith, ac nid y fendith ei hun, sydd yma eto, fel ag yn y byd materol. Yn wir, gallwn ni droi bendithion goreu Duw, pe heb wneyd y defnydd iawn ohonynt, yn felldithion i ni ein hunain a'n cyd-ddynion, ac yn rhy aml yr ydym yn gwneyd hyny.

Tynwch i chwi eich hunain ddarlun o ddyn wedi cael ei ddonio â'r galluoedd meddyliol cryfaf ; dacw ef wedi pasio trwy brif golegau a phrif ysgolion ein gwlad, wedi graddio gyda'r anrhydedd uchaf, ac wedi cyrhaedd ffon uchaf yr ysgol bron mewn dysgeidiaeth, ac eto y mae ei fywyd yn fethiant. Paham ? Am nad yw yn troi ei alluoedd i'r cyfeiriad iawn, ac yn gwneyd y defnydd goreu ohonynt. Mae'n wir ei fod wedi gwrteithio ei feddwl ei hun, ond nid yw hyn ond ychydig iawn o'r hyn sydd yn ofynol oddiwrtho. Mae Duw yn gofyn ganddo i fod yn gydweithiwr âg Ef er codi a dyrchafu dynolryw ar yr ochr feddyliol, ac nid yw wedi gwneyd y mymryn lleiaf o hyn. Mae yn cadw ei holl wybodaeth a'i allu meddyliol iddo ei hun, ac yn anghofio ei bod yn ddyledswydd arbenig arno i gyfranu yn rhad ac yn rhwydd i'w gyd-ddynion yr hyn y mae ef wedi dderbyn yn rhad gan ei Dad o'r nef. Mae yn esgeuluso ei ddyledswydd tuag at Duw a dyn ; mae yn anghofio ei fod yn aelod o gymdeithas, yn cymeryd yn rhwydd o'i breintiau, ond yn peidio cyflawni ei dyledswyddau, ac yn anwybyddu y ffaith fod pob hawl a phob braint perthynol iddo ei hun yn cario

"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.—CYFROL XXIV.

1900.

[*CYCHWYNWYD* 1847.]

MERTHYR TYDFIL:

ARGRAFFWYD GAN JOSEPH WILLIAMS, SWYDDFA'R "TYST" A'R "CENAD HEDD."

1900.

CYNWYSIAD.

TUDAL.

Addysg Grefyddol 211
Agoriad Capel Newydd Cilian ... 136
Amcan Eglwys 272
Arholiad Blynyddol yr Ysgol Sul. 1900 ... ... 165, 182
Ashton, Charles, Y diweddar ... 75
At y Parch. Jenkin Thomas ... 187

Barddoniaeth—
Colledion 10
Y Gauaf 11
Blwyddyn Newydd 12
Eangder y Greadigaeth 16
Y Pregethwr 25
Ar farwolaeth Mr. M. H. Williams 35
Edrych ar y Gwynt 42
Ar ôeld Adyn Anhrugarog ... 48
Yr Enllibiwr 57
Dyhead 62
Bedd y Milwr 64
Er Cof am Mr. D. Jenkins ... 66
Trybestod y Transvaal 72
Sursum Corda 74
Y Bywyd Cristionogol 77
Echryslonrwydd Rhyfel... ... 84
Y Boreu 105
Llinellau Priodasol 110
Cân y Rhyfel 113
Capel Newydd Pantydefaid 117, 161
Y Dyn Celwyddog 119
Haf Hinon... 129
Y Gwanwyn 135
Galargwyn Iolo Morganwg ... 141
Yr Ysgol Nos 146
Y Bedd 157
Yr Eneth Amddifad 158
Telwch eich Dyledion 162
Y Morgrugyn 177
Awst 178
Croes Crist 178
Y Lôn ar y Fraeth 191
Y Cwmwl 192
Achubwyd y Baban 193
Lili'r Glyn 194
Ffu a Gwyn 202
Mynydd Gelionen 210
Hen Gapel Sant Ffraid 225
Storom Bywyd 236

TUDAL.

Barddoniaeth *(parhad)*—
Gwyliad am Adferiad Iechyd ... 239
Seren Heddwch 240
Y Gwenithyn 242
Bazaar Llundain 145
Bedydd yr Offeiriad 237
Bidle, John 20
Bromley, Humphrey 169
Brooke, Stopford A., Y Parch. ... 41
Bruno, Giordano 53

Canolfarth Ceredigion 68
Castellnedd 94
Carmarthen College...155, 226, 251, 269
Channing House School 5
Collyer, Y Parch. Robert... ... 64
Codiad a Chynydd Crefydd Rydd yn Abertawe 193
Credo Robert Burns... 67
Cwrdd Te, Y 69
Cymanfa Gogawl Ceredigion 158, 192
Cymdeithas Undodaidd Deheubarth Cymru 183, 247
Cyfarfodydd y "B. a'r F.U.A." yn Llundain 160
Cysgod a'r Sylwedd, Y 214

Dadl Ynysgau, Merthyr Tydfil 92, 114, 141
Ddoe, Heddyw, ac Yfory ... 221, 245
Dyro i ni heddyw ein Bara Beunyddiol 85

Edwards, Y Dr., Bala 163
Ein Dwy Gretydd 120
Enwadau Efengylaidd, Yr 241

Fy Mhregeth Gyntaf 108

Gartref gyda Duw 173, 197

Henesion ... 28, 48, 75, 97, 122, 146, 170, 194, 218, 242, 267, 284
Hawliau Dyn 215
Hen Eglwys Cwmyglo 115

Iolo Morganwg tel Emynwr .. 13

Llith J.J.T. 218
Llun Agrippa 118

TUDAL.

Magna Charta Mesur Diwygiad .. 60
Manion ... 25, 48, 97, 122, 146, 170, 194, 218, 242, 267
Martineau, Dr. James 36
Marwgofion ... 27, 50, 76, 99, 123, 148, 170, 195, 219, 243, 267, 287
Methiant Crefydd Uniawngred ... 142
Myfyrdod ar Ddiwedd y Cynhauaf 277

Nodachfa Undodaidd Llundain ... 134

Pant-teg 24
Papyrau Ap Cynon ... 43, 57, 95, 130, 151, 188, 203, 233, 264, 282
Plufyn i ddangos Cyfeiriad y Gwynt 72
Pounds, John 29
Pregeth gan John James 77, 101, 125, 149
Priodasau ... 27, 76, 99, 147, 195, 219, 267, 286

TUDAL.

Priodoleddau Duw 6
Pwyllgor yr Ysgol Sul 240

Rhyfel a Chrefydd 93
Ruskin, John 74

Syched am Dduw 241

Teimlad Crefyddol, Y ... 81. 106
Temlau ac Addoliad... 111

Undodiaid Cymreig y Brifddinas... 63
Undodiaeth yn Ngogledd Cymru ... 260

Yn ol at Iesu 179,206
Ynysgau ... 16, 46, 61, 92, 114, 141
Yr Eglwysi a'r Dosbarthiadau Gweithiol 17
Y Rhyfel: "Fel ein gwelir" ... 117

gyda hi ddyledswydd tuag at ereill—y ddyledswydd o wneyd yr iawn ddefnydd o'r hawliau a'r breintiau yma ; mae y posiblrwydd bendith mae Duw wedi roddi iddo wedi troi allan yn rhywbeth eithaf gwahanol —nid yw y posiblrwydd wedi dyfod yn ffaith, ac mewn gwirionedd, y mae wedi bod yn felldith iddo am ei fod wedi esgeuluso gwneyd yr iawn ddefnydd ohono—am ei fod, er yn alluog, wedi peidio cyfrauu ei ddysg i ereill.

Mae yr un fath gyda chyfoeth. Mae cyfoeth, o ryw fath, ond ei ddefnyddio yn iawn, yn un o fendithion Duw. Ond yn ein gwlad ni, a gwledydd ereill, yn sefyllfa bresenol pethau, y mae cyfoeth yn fynych - yn fynych iawn—yn fwy o felldith nag o fendith i gymdeithas—i ddyn fel cyfangorff. Yn lle ei fod yn feddiant cyffredinol pob dyn a dynes ar wyneb y ddaear, y mae yn nwylaw yr ychydig, y rhai a elwir yn gyfoethogion ; yn lle ei fod yn cyfranu at hawddfyd, daioni, a dedwyddwch plant Duw yn mhob man, nid oes yn bresenol ond rhyw nifer fechan mewn cymhariaeth yn feddianol ar y bendithion mae yn gyfranu. Nid yn unig hyn ; mae gwaeth yn aros. Cyfoeth yw cynyrch gwaith dynion ar y defnydd mae Duw wedi roddi iddynt. Mae Duw wedi rhoddi y defnydd hwn, megys tir a môr, a'u holl adnoddau, yn rhad i bawb, heb fod gan un fwy o hawl arno na'r llall, ac ni fyddai ond rhesymol i ni gredu mai y rhai sydd yn gweithio ar yr adnoddau yma fyddai yn dyfod yn berchenogion ar, ac yn meddu yr hawl flaenaf i'r cyfoeth sydd yn deilliaw oddiwrth eu gwaith. Ond nid felly y mae. O, nage ! Nid ydynt hwy, druain, yn cael ond ychydig o ffrwyth eu llafur—nid ydynt yn cael medi lle yr hauasant na chasglu lle y gwasgarasant. Pwy ynte sydd yn medi o ffrwyth eu llafur hwy ? Neb llai na'r rhai sydd wedi gwneyd dim, neu y nesaf peth at hyny, tuag at ei gynyrchu—y rhai ydynt yn byw yn fras ar gefn eu cyd-ddynion, ac a elwir yn gyffredin yn dirfeddianwyr, cyfalafyddion (*capitalists*), &c. Mae y rhai yma, fel pe baent yn credu mai hwy sydd yn berchen ar dir ein gwlad, pan mewn gwirionedd nad ydynt yn berchen mwy ohono na'r tlotaf o aelodau y tloty. Buasai yr un mor rhesymol iddynt hawlio eu bod yn berchen ar yr awyr neu'r môr. Sut, ynte, y maent wedi dyfod mewn enw yn feddianol ar yr hyn sydd yn etifeddiaeth gyffredinol i bawb ? Wel, i beidio cymysgu geiriau, mae eu cyndeidau, eu tadau, neu hwy eu hunain, wedi ei ddwyn oddiar y rhai oedd yn wanach neu yn llai cyfrwys na hwy (nid yw hyn yn golygu fod pob tirfeddianwr yn lleidr), fel y mae ein gwlad ni yn bresenol (gwarth bythol ar ei henw !) yn myned i ddwyn y ddwy Werinlywodraeth fechan, ddewr, sydd wedi ymladd mor wrol dros eu gwlad a'u rhyddid yn Neheubarth Affrica.

Mae cyfoeth, ynte, yr hwn a fwriadwyd gan Dduw i fod yn fendith yn cael ei droi yn felldith i laweroedd. Oherwydd difaterwch ac esgeulusdod y mwyafrif mawr, y mae yn syrthio i ddwylaw nifer fechan, y rhai, gydag ychydig eithriadau, nad ydynt yn gwneuthur y defnydd iawn ohono. Yn y lle cyntaf, y maent yn ei gael yn anonest —trwy lafur ereill yn benaf—am nad ydynt hwy yn gwneyd ond y peth lleiaf tuag at ei gynyrchu ; ac yna, wedi ei gael, nid ydynt

yn gwneuthur y defnydd priodol ohono; nid ydynt yn ei ddefnyddio er llesoli cymdeithas a'r wlad yn gyffredinol trwy ei gyfranu yn hael at achosion ac unigolion mewn angen am dano; nid ydynt yn gydweithwyr â Duw, ond yn hytrach yn gweithio yn ei erbyn, ac yn cefnogi teyrnas y tywyllwch. Mae eu cyfoeth, yn lle bod yn fendith iddynt hwy ac ereill, yn cael ei droi yn felldith. Nid yw y posibl-rwydd bendith mae Duw wedi roddi yn eu dwylaw yn troi allan yn ffaith. Er ceisio gwneyd hyn yn fwy amlwg, gadewch i ni gymeryd fel esiampl dirfeddianwr mawr mewn unrhyw ardal o'r wlad. Mae yn berchen ar eangder o dir a llawer o dai, yn y rhai y mae tyddynwyr neu ffermwyr yn byw, ac am yr hawl o gael byw felly a thrin y tir maent yn talu iddo swm flynyddol o arian a elwir yn ardreth. Mae yr ardreth yma i ddyfod allan o'r cyfoeth allant gynyrchu trwy eu gwaith ar y tir. Mae y ffermwyr yn cyflogi cynorthwywyr, ac y mae y ddau ddosbarth yma yn gweithio yn galed ar y fferm o foreu hyd hwyr, o ddydd i ddydd, ac o flwyddyn i flwyddyn. Maent yn hau ac yn medi, ac yn cywain i'w hysguboriau, a thrwy hyny yn casglu cyfoeth—cyfoeth sydd yn deilliaw oddiwrth eu gwaith hwy ac adnoddau cynhenid y tir—cyfoeth sydd yn ffrwyth cydweithrediad y ffermwr a'i wasanaeth-ddynion, a Duw, heb fod gan y tirfeddianwr tybiedig un llaw ynddo. Ac eto, ar ddiwedd y flwyddyn, mae yr olaf yn ymofyn am ei ardreth—am ran o'r cyfoeth yn nghread yr hwn nad yw ef wedi cymeryd rhan na chyfran. Ond, meddech, efe yw perchenog y tir, ac y mae hawl gyfreithlawn ganddo i'w ardreth. Yn ddiamheu, yn ol cyfraith bresenol ein gwlad, y *mae*, ond y mae genyf eto i ddysgu mai efe yw gwir berchenog y tir a'r tyddyn. Na! Duw, mi dybiaf, yw gwir berchenog y tir, ac y mae Efe wedi ei roddi yn etifeddiaeth gyffredinol i bawb o'i blant, heb fod gan y cyfoethog fwy o hawl ynddo na'r tlawd. Mae angen arnom i sylweddoli'r gwirionedd pwysig hwn, ac i'w gario allan i'w gasgliad naturiol, sef mai eiddo y bobl yw y ddaear, ac nid eiddo rhyw ychydig ohonynt yn unig. Mae gwrthrych ein sylw—y tirfed lianwr—yn cael ei ddigoni â chyfoeth y byd hwn, ac yn y rhan amlaf o amgylchiadau nid yw yn gwybod, neu yn dewis gwneyd yr iawn ddefnydd ohono, a'r canlyniad yw ei fod yn troi allan yn felldith iddo ef ei hun yn ogystal ag i ereill.

I ba gyfeiriad bynag y trown yr ydym yn canfod yr un ffaith ac yn dysgu yr un gwirionedd, sef mai cydweithwyr â Duw ydym yn y byd yma, ac mai ein dyledswydd uchaf a mwyaf pwysig yw byw yn y fath fodd fel ag i fod yn gydweithwyr teilwng âg Ef mewn gwirionedd. A phan ystyriom y pwnc yn ofalus, pa faint o anrhydedd mae hyn yn roddi ar ein natur ddynol!

Both all adlewyrchu mwy o barch arnom, a dangos yn well ein galluoedd mawrion na'n bod wedi cael ein dewis gan Dduw fel cyd-weithwyr âg Ef! Mae y ffaith hon yn dilygu i godi ein syniad am y natur ddynol i raddau helaeth iawn. Ac onid yw hefyd yn dangos i ni ddoethineb a chariad mawr Duw tuag atom? Pe bai pobpeth yn cael ei wneyd erom a throsom, i ba raw fath o fodau y byddai i ni yn

fuan ddadblygu? Pe bai pobpeth yn dyfod yn iawn ac yn rhwydd bob amser heb un ymdrech o'n heiddo ni, pa beth ddeuai ohonom cyn hir? Pe byddai i hyny byth i gymeryd lle, ni fyddai ond y peth gwaethaf byth allasai ddygwydd i ni. Dirywiai ein galluoedd corfforol a meddyliol, moesol a chrefyddol, a chyn hir gwnai i ffwrdd â hwynt yn llwyr, a gadawsit yr hil ddynol yn farw yn faterol ac yn ysbrydol, heb na corff nac enaid; oblegid y mae yn ddeddf braidd heb eithriad yn natur, fod defnyddio unrhyw allu yn iawn yn ei ddadblygu a'i gryfhau, ac yn ei wneyd yn fwy cymhwys i gyflawni ei ddyledswyddau, ond fod diddefnydd ohono yn graddol leihau ei bosibilrwydd yn unrhyw gyfeiriad, ac yn y diwedd yn gwneyd i ffwrdd âg ef yn gyfangwbl—y mae yn marw o achos diffyg gwaith. Dywedir fod dyn unwaith wedi bod yn berchen ar gynffon, ond wedi iddo ddyfod i'r cyflwr hwnw pan nad oedd arno ei heisieu, cyn hir fe ddidanodd o eisieu cael ei defnyddio. Mae y mwnci, ar y llaw arall, yn y sefyllfa hono lle y mae arno ei heisieu, ac yn gwneyd defnydd ohoni; ac, fel yr ydym oll yn gwybod, mae ei gynffon ef yn llewyrchu. Felly ninau, os na fydd gwaith i ni i'w wneyd, os na fydd ein hangen ar Dduw, ni fyddwn yn hir cyn diflanu oddiar wyneb y ddaear. Dylasem fod yn ddiolchgar, ynte, fod gwaith wedi ei barotoi ar ein cyfer. Dywed awdwr llyfr Genesis fod Duw wedi anfon gwaith i'r byd fel melldith ar y ddynoliaeth am fod Adda ac Efa wedi tori ei orchymynion; ond gwyddom ni yn awr yn well, mai bendith ac nid melldith i ddyn ydyw gwaith—mai gwaith ydyw ffynonell ei iachawdwriaeth. Gwyddom oll trwy brofiad, mai yr hyn yr ydym wedi cael fwyaf o ffwdan a thrafferth wrtho, hwnw yn fynych sydd anwylaf genym, hwnw ydym yn garu fwyaf—y plentyn gwan, afiach, neu efallai yr un nwyfus, gwyllt, sydd fynychaf yn cael mwyaf o ofal a sylw ei rieni. Felly yn ein bywydau ninau, yr hyn ydym wedi cael fwyaf o lafur ac o ofid wrtho, hwnw, ar ol ei gwblhau, ydym mwyaf balch ohono, a hwnw sydd yn gwneyd mwyaf i'n dadblygu yn mhob modd. Mae llafur, ynte, yn fendith anmhrisiadwy i ni, ac yn tynu allan ein galluoedd goreu ac uchaf.

Mae yn fraint i ni, ac yn anrhydedd arnom, i gael bod yn gydweithwyr â Duw er dwyn i ben Ei gynlluniau a'i amcanion Ef. Ond y mae yna agwedd arall trwy ba un y gallwn edrych ar y berthynas hon rhwng dyn a Duw. Mae pob braint a phob anrhydedd yn cario gyda hwynt ddyledswyddau; ac os ydym ni wedi ac yn cael y fraint o fod yn gydweithwyr Duw fel plant anwyl, mae y ddyledswydd yn gorphwys arnom i ddangos ein hunain yn deilwng o'r fraint yma. Mae yn rhaid i ni geisio cael allan amcanion a bwriadau Duw mewn perthynas i ni ein hunain a'r byd mawr yn yr hwn yr ydym yn byw; ac os llwyddwn yn hyny, mae yn rhaid i ni gefnogi a cheisio cario allan hyd eithaf ein gallu yr amcanion a'r bwriadau hyn. Dylasai pob un ofyn iddo ef ei hunan beth y mae Duw yn geisio ganddo wneyd; ac wedi cael allan, dylasai ei wneyd â'i holl egni. Nid yr un fath yn union mae Ef yn geisio gan bob un ohonom wneyd, ond y mae yna rai—lawer o bethau—a ddysgwylia oddiwrthym oll. "Canys dangosodd Efe i ti, ddyn,

beth sydd dda : a pha beth a gais yr Arglwydd genyt, ond gwneuthur barn, a hoffi trugaredd, ac ymostwng i rodio gyda'th Dduw." Dyma, yn ngeiriau y proffwyd Michah, y prif linellau ar ba rai y dysgwylia Duw i ni gerdded, ac ar ba rai y rhaid i ni gerdded os ydym i fod yn gydweithwyr âg Ef. Gwrandewch eto ar eiriau yr apostol Iago, er cael gwell amgyffrediad o'r hyn mae cydweithrediad â Duw yn olygu : "Crefydd bur a dihalogedig ger bron Duw a'r Tad yw hyn ; ymweled â'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd, a'i gadw ei hun yn ddifrycheulyd oddiwrth y byd ;" hyny yw, oddiwrth yr hyn sydd yn ddrwg yn y byd, oddiwrth fydoldeb, ariangarwch, balchder, hunanoldeb, meddwdod, ac oferedd, yn mhlith pethau ereill. Ac yn olaf, rhoddwch glust i eiriau bendigedig yr Iesu, yr Hwn a roddodd i ni yr esiampl oreu o'r hyn yw bod yn gydweithiwr â Duw mewn gwirionedd—geiriau ag y mae y byd mewn cymaint o angen am danynt heddyw a phan eu llefarwyd ganddo Ef ar fryniau a dyffrynoedd, ger llaw llynoedd ac afonydd Palestina, yn agos i ddwy fil o flynyddau yn ol. Dyma, yn ol yr hanes a ddywedodd Efe, ac a ddywed wrthym ninau eto : "Cerwch eich gelynion, bendithiwch y rhai a'ch melldithiant, gwnewch dda i'r sawl a'ch cashant, a gweddïwch dros y rhai a wnel niwed i chwi ac a'ch herlidiant, fel y byddoch blant i'ch Tad yr hwn sydd yn y nefoedd ; canys os cerwch y rhai a'ch carant, pa wobr sydd i chwi ?" Ac eto : "Pwy bynag a'th darawo ar dy rudd ddehau, tro y llall iddo hefyd. . . . . Dyro i'r hwn a ofyno genyt, ac na thro oddiwrth yr hwn a ewyllysio echwyna genyt." Yn mhellach : "Gwnewch i ereill fel y dymunech i ereill wneuthur i chwithau ;" ac yn ddiweddaf : "Byddwch chwi, gan hyny, yn berffaith, fel y mae eich Tad yr Hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith." Bydded i ni sylweddoli fod yr Iesu yn siarad y geiriau hyn wrthym ni yn awr yn gymaint ag wrth ei gydoeswyr gynt, a bydded i ni wneuthur ein goreu i ddilyn yn ôl Ei draed Ef, gan fod yn sier mai dyma y ffordd fwyaf dyogel i'n dwyn i fod yn gydweithwyr â Duw.

QUIVIS.

PAPYRAU AP CYNON.

Wedi eu Harchwilio a'u Dethol gan HIRFAEN RHYS.

XV.

"WEDI'R oll," medd Ap Cynon, yn y papyr olaf o'i eiddo a ddyfynwn, "nid ar sylfaen o wyddoniaeth ac uwchanianeg yr adeiledir y gwir fywyd ; na, diolchaf i'r Nefoedd fawr, y mae gwir sylfaen bywyd wedi ei gosod yn fy mynwes fy hun, ac yn mynwes cymdeithas o'm cylch ; ac ar y graig hono y dylwn adeiladu'm bywyd. Rhesymer a fyner, y mae'n aros fel seren y gogledd

uwch bywyd pob dyn yr hen orchymyn hwnw, 'Car dy gymydog fel ti dy hun.' Na, chwilier y fynwes yn fanwl, ac odid na cheir gafael yn y teimlad hwnw a bregethodd Mazzini i bob dyn a chenedl. Cenadaeth yw bywyd. Y mae i bob dyn ei ddyledswydd yn y byd, a'i ddyben ydyw gweithredu yn ol y ddyledswydd hono. Y mae i bob cenedl ei cenadaeth, a dyben pob cenedl yw gweithio allan y genadaeth hono. 'Does yr un ystyr i fywyd ar wahan i'w ddyledswydd; oni chenfydd cenedl amcan ei bodolaeth, marw a fydd, a hyny yn dra buan Y mae Kant yn ei athroniaeth yn son am y Rheswm Pur a'r Rheswm Ymarferol; y Rheswm Pur y geilw hwnw a dreulia ei amser yn ceisio darganfod hanfodion pethau, a threio esbonio neu wadu'r Duwdod Ei Hunan; ar y llaw arall, y Rheswm Ymarferol sydd yn y cyfamser yn gofalu am bethau cyffredin bywyd, yn ei liwio yn faterol, yn foesol, ac yn grefyddol. Wrth y Rheswm Ymarferol yma, efallai na olyga Kant ddim yn fwy na Synwyr Cyffredin – a pheth sydd fwy anghyffredin na'r synwyr hwnw? Pa ryw nifer o wŷr y Rheswm Pur sydd yn arwain bywyd anwar, anheilwng o greaduriaid *di*-reswm! Oni wyddys ei bod yn beth dra chyffredin i rai o'r bobl hyny a elwir yn feddylwyr penaf yr oes i ymollwng i fywyd amhur ac anllad, a hyny yn aml o ddiffyg rheswm ymarferol neu synwyr cyffredin? Y mae rhywbeth yn Ddwyfol mewn synwyr cyffredin, fel gallu wedi ei roddi i ddyn oddiuchod. Mawr yw'r dyrchafiad a gaiff y meddwl dynol yn y dyddiau hyn; oni siaredir braidd yn addoliadol am y gallu hwnw a deifl ei linyn mesur o blaned i blaned, a bwysa heuliau yn ei glorianau, ac a eilw drigolion y llwch bob un wrth ei enw, a farchoga'r dòn gynddeiriocaf, ac a wibia gylch ogylch y ddaear ar edyn y mellt; ac yn ddiweddaraf oll a wisg am y llygad wydrau a'i galluoga i weled drwy wàl geryg fel drwy ffenestr wydr. Nid bywyd swynwr (*conjuror*) ddylai fod ein delfryd, ond bywyd dyn. Dywedai un 'fod pytaten ar y ddaear yn gymaint gwerth a seren yn y ffurfafen.' Wedi'r oll, mae pethau cyffredin bywyd o ddirfawr bwys. Y mae ein cymydog y drws nesaf yn hawlio mwy o'n sylw nag Aristotle. Anaml yr arweinia llwybr ein dyledswydd ni drwy ganol bro'r ser a'r planedau. Y mae un weithred o gariad yn aml yn gorbwyso yr ymchwiliadau dyfnaf i gysylltiadau cyfrin y corff a'r enaid, ac y mae'r cysylltiad, fel edef wan, wedi ei thori cyn hyn yn y weithred o geisio cael gafael ynddi! Y mae cymeriad pur yn lefeinio cymdeithas, ac yn aml yn fwy pell-gyrhaeddol yn ei ddylanwad nag ymchwiliadau cywrain yr anianydd neu'r athronydd. Cam yw llwybr y bardd a'r gwyddonydd a'r meddyliwr mwyaf yn aml; ond syth yw llwybr dyledswydd, êl at ei wrthrych heb wyro. Dyledswydd, neu'r Ewyllys Ddwyfol, neu beth bynag y'i gelwir, hi ydyw llyw bywyd, ac nid oes eisieu ymbalfalu haner ein hoes i chwilio allan beth ydyw. 'Rhaid i Mi weithio gwaith yr Hwn am hanfonodd,' meddai Crist, ac y mae'r un 'Rhaid' wedi ei blanu yn ein mynwesau ninau. Gwrando, f'enaid, y llais Dwyfol hwn o'th fewn, dilyn ei orchymyn, pe ond am haner awr, ac ni fyddi wedi preswylio'n ofer ar y ddaear."

Ac yn awr, anwyl ddarllenydd, dyna ni wedi bod unwaith bob mis am tros flwyddyn faith yn rhoddi tro efo'n gilydd trwy ystafelloedd meddwl a chalon y Cymro ieuanc hwn, a mawr hyderwn nad ofer y treuliasom ein hamser. Gallasem yn ddiamheu ddangos rhai dodrefn a rhai ystafelloedd ereill, ond rhaid eu gado dan glo. Fel y dywedasom eisoes, ystafelloedd wedi haner eu dodrefnu, neu, yn wir, heb ddodrefn o gwbl, ydyw llawer; cymer oes feithach nag eiddo Ap Cynon i osod parlyrau'r enaid mewn trefn. Amherffaith fu ein gwaith yn dethol a sylwi ar y Papyrau a groniclasom, ond tardd yr amherffeithder yn fwy o ddiffyg gallu nag o fychander ein serch at Ap Cynon. Hyn sydd sicr, na wyddai neb gymaint am y gwrthrych a ni ein hunain, er y gallasai miloedd fod wedi cofnodi ei fywyd mewn gwell iaith a thermau, a chyda mwy o'r dyfalwch hwnw y dywedir fod y Cymro yn brin ohono. Ac wrth droi yr agoriad yn y drws ar feddyliau a chof ein hen gyfaill, dymunwn estyn llaw i ffarwelio â'r cyfryw ddarllenwyr amyneddgar a'n dilynasant hyd

Y Diwedd.

HIRFAEN RHYS.

MANION AC HANESION.

AT Y DOSBARTHWYR.—Carwn ar i'r dosbarthwyr anfon eu taliadau am yr YMOFYNYDD hyd ddiwedd y flwyddyn i J. Hathren Davies, Cefn Coed. Byddaf yn falch i gael y cyfrifon oll yn barod cyn gynted ag y byddo modd.

PANT-TEG, GER LLAW CASTELLNEWYDD-EMLYN.—Cynaliwyd cyfarfodydd ail-agoriadol y capel Undodaidd uchod ar ddydd iau Mawrth a Mercher, Hydref yr 16eg a'r 17eg. Agorwyd y gwasanaeth nos Fawrth trwy ddarllen a gweddio gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca, a phregethwyd gan y Parch. L. Williams, Rhydygwin. Dydd Mercher, dechreuwyd y gwasanaeth trwy ddarllen a gweddio gan y Parch. L. Williams, Rhydygwin. a phregethwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas, Llandysul, a chan y Parch. J. Davies, Alltyplaca. Yn y prydnawn, agorwyd y gwasanaeth trwy ddarllen a gweddio gan y Parch. T. Arthur Thomas, a phregethwyd gan y Parch. L. Williams, a chan y Parch. J Davies. Cafwyd cynulleidfaoedd lluosog iawn, a'r capel lawer yn rhy fychan i gynwys yr holl dorf, nes bu gorfod i amryw yn y prydnawn aros allan. Gellir dyweyd yn ddibetrus na chafwyd gwell cyfarfodydd na gwell pregethiad o'r Efengyl mewn unrhyw le. Yr oedd y pregethwyr yn eu hwyliau goreu. ac ôl llafur mawr ar eu gwaith, nes cafodd y gynulleidfa fawr ei llwyr foddhau fel y gellir dywedyd ei bod braidd yn anmhosibl cael gwell pregethau a gwrandawiad mwy astud. Gorphenwyd un o'r cyfarfodydd mwyaf llwyddianus a fu yma erioed, yn gynar yn y prydnawn, ac heb drethu dim ar logellau neb y dydd hwnw; felly, bellach, mae y capel ag sydd 'nawr yn hardd wedi cael ei ail-agor yn rhydd o ddyled. Mwyhau wnelo ein gweithgarwch yn ngwinllan Crist, a bendith y Nefoedd fyddo ar y ddeadell fechan hon.—*J. B.*

"YR YMOFYNYDD"—Yn ei erthygl yn rhifyn Ionawr, 1901, bydd y Parch. R. J. Jones. M.A, yn cyffwrdd â hanes Undodiaeth yn Nghymru yn ystod y ganrif sydd ar derfynu, a'i rhagolygon yn y ganrif newydd. Ymddengys hefyd yn yr un rhifyn erthyglau gan y Parch. E. Ceredig Jones. M.A., Bradford, ar y diweddar Broff. Max Müller; a chan y Parch. E. D. Priestley Evans, Kidderminster, ar undeb y ddwy Eglwys Ysgotaidd a gymerodd le yn ddiweddar.

Mewn ateb i rai sydd am wybod a fydd rhyw gyfnewidiad yn maintioli yr YMOFYNYDD yn wyneb fod y pris wedi ei ostwng, dymunwn ddyweyd y bydd y gyfres newydd o'r un plyg, ac yn cynwys yr un nifer o dudalenau ag o'r blaen, ond bydd yn cynwys mwy o fater, gan y bydd un-ar-bymtheg o'r tudalenau, mwy neu lai, yn cael eu hargraffu mewn llythyren fanach, ond nid mor fân a'r ddwy dudalen olaf o'r hen gyfres. Gobeithio y bydd yr eglurhad hwn yn foddhaol, ac yn rywfaint o help i helaethu y cylchrediad. Eisieu rhagor o dderbynwyr sydd i wneyd y cyhoeddiad yn llwyddianus. Dybler rhif y derbynwyr, ac yn y *long run* bydd gwerth y papyr yn sicr o gael ei ddyblu. Mae brwdfrydedd ar un llaw yn cael ei ateb gan ffyddlondeb ar y llaw arall. 'Does dim yn llwyddo cystal a llwyddiant. Anfoner archebion am gopiau yn ddioedi at y Parch. T. A. Thomas, Llandysul, South Wales. Mae y rhai a ganlyn wedi ateb yn sylweddol i'r apêl a wnaed i gario allan y penderfyniad a basiwyd yn Nowlais i wneyd trysorfa er mwyn rhoddi cychwyniad llwyddianus i'r gyfres newydd. Derbynied y cyfryw fy nolchgarwch gwresocaf ar ran y Pwyllgor, ac yr wyf yn gobeithio y bydd eu hesiampl yn symbyliad i ereill sydd wedi derbyn yr un cylchlythyr:—L. N. Williams, Caecoed, Aberdar, £2 2s.; W. James, Brynhyfryd, Llandysul, £2 2s.; J. Evans, cyfreithiwr, Llandyssul, £2 2s.; T. Thomas, Green Park, £2 2s.; Cadben Davies, Rhydowenfach, £2; Misses Jones, Richmoud Villa, Llandysul, £2 2s.; T. A. Thomas. Llandysul, 10s 6c.; Rees Thomas, Gwion Castle, Llandysul, £1 1s.; Lewis Williams, Rhydygwin, 5s.; Miss Lawrence, Llundain, £1 1s.; Tom Thomas, Crugeryr Factory, 2s. 6c.; W. E. Thomas, Abertawe, £1 1s.; J. Lewis, Pontypridd, 5s.; Ceredig Jones, Bradford, 10s. 6c.; R. Bedlington. Aberdar, £1; J. Spencer Lloyd, Treorci, 10s. 6c.—*W. J.*

ARHOLIAD YR YSGOL SUL.—Mae y llyfrau ar gyfer y safonau i gyd yn barod yn awr, a'r cam cyntaf i symud a dechreu gwerthu yw y cam goreu. Mae eisieu rhagor o ffyddlondeb ar ran athrawon ac ysgolheigion, er gwneyd yr arholiad nesaf yn fwy llwyddianus nag un o'r blaen. Byddai gair o gefnogaeth a symbyliad, ac ambell awgrym er trefnu y gwahanol ddosbarthiadau oddiwrth y gweinidog, yn gynorthwyol iawn. Gobeithio hefyd y gwêl ein gweinidogion y ffordd i helpu, yn neillduol gyda'r safonau uchaf. Undeb y *forces* wna y gwaith i fyn'd. Mae Holwyddoreg y Parch. D. Evans, gyda diwygiadau helaeth, ac am haner y pris o'r blaen, allan o'r wasg. Anfoner ato ef am gopiau.—*W. J.*

GOFYNIAD I R. J. J.—Trwy eich caniatad, Mr. Gol., carwn ofyn i'r Parch. R. J. Jones, Aberdar, pa beth oedd yn feddwl wrth ddyweyd yn ei bregeth yn y Cyrddau Chwarterol yn Nowlais, fod Ruskin a Tolstoi yn "wallgof"? Methaf a chreda ei fod yn defnyddio y gair yn ei ystyr gyffredin. Rhag i un camargraff gael ei adael ar feddwl neb, carwn gael gair.—*T. R. D.*

Y GRAIG A GELLIONEN.—Sul, a nos Lun, Hydref 28ain a'r 29ain, y cawsom y fraint o gynal ein cyfarfodydd hanerblynyddol. Mae adeg y cyfryw gyrddau wedi pasio, ond gobeithiwn yr erys pob hedyn a hauwyd o'r pwlpud gan y ddau bregethwr galluog a chryf—Parchn. T. A. Thomas ac R. C. Jones. Mae lle i ofni fod pobl yn edrych yn rhy ysgafn ar gyfarfodydd o'r fath, heb osod y pwys dyladwy i dynu allan y sylwedd priodol o'r hyn a wasgerir o'r pwlpud. Nac aroswn yn ormodol wrth allanoldeb a defodaeth yr eglwys, ond bwriwn olwg i fewn i galon yr achos. Dymunem ddiolch yn gynes, ar ran ein gweinidog ffyddlawn, i bob un am ei bresenoldeb a'i gyfran at yr achos da.

DOWLAIS.—Cynaliwyd ein gwyl dê flynyddol eleni ar y 25ain o Hydref, pryd y daeth lluaws yn nghyd, fel arfer, i gymeryd o'r danteithion oedd wedi eu parotoi. Cadwyd y boneddigesau perthynol i'r capel, oedd yn gweini wrth y byrddau, yn ogystal a'n brawd oedranus Mr. Lewis, yr hwn oedd yn gofalu am barotoad y tê, yn llawn gwaith am oriau lawer, gan fod yr ymwelwyr mor lluosog. Yn ystod y prydnawn talodd dros 400 ymweliad â'r lle cyfleus sydd genym yn yr ysgoldy uwchben y capel at gadw gwyl o'r fath. Ymae'r wyl hon erbyn hyn wedi enwogi ei hun yn y lle, gan fod lluaws bob blwyddyn o bobl perthynol i gapelau ereill yn gofalu na chaiff yr wyl fyned heibio heb bresenoli

eu hunain. Da iawn genym am hyn. Sul, Tachwedd 4ydd, cynaliwyd ein cyfarfodydd diolchgarwch am gynhauaf y flwyddyn, pryd y gwasanaethwyd gan ein gweinidog. Cafwyd cynulliadau lluosog boreu a hwyr, a'r capel wedi ei addurno yn brydferth iawn â ffrwythau o bob math. Yr ydym yn teimlo yn ddyledus iawn i'n diacon ffyddlon, Mr. John Jones, Bryntirion Street, am ofalu i gael ffrwythau o'r fath oreu ar gyfer yr achlysur yma bob blwyddyn

Tysteb y Parch. John Hathren Davies.—Nos Iau, Tachwedd 1af, oedd y noson hir-ddysgwyliadwy ar y Cefn i gyflwyno y dysteb i Mr. Davies fel arwydd o barch am ei ddiwydrwydd gyda phob achos da yn y lle am y pedair blynedd ar hugain diweddaf. Cynaliwyd y cyfarfod yn yr Hen Dy Cwrdd, ac yr oedd yr hen gapel yn orlawn; pobl o bell ac agos, Cymry a Saeson, tlawd a chyfoethog, Rhyddfrydwyr a Cheidwadwyr, yn gymysg, yn rhoddi eu presenoldeb. Llywyddwyd gan y Milwriad J. J. Jones, Y.H., Fronheulog, Cefncoed. Adroddodd Mr. Jones lawer o'i gysylltiadau â Mr. Davies pan oedd ef yn ysgrifenydd ar Fwrdd Ysgol y Faenor, a Mr. Davies yn aelod; ac yr oedd wedi ei gael ef yn gyfaill ffyddlawn bob amser ar y Bwrdd, a'i duedd i ddyrchafu pob mudiad da yn y lle. Ar yr adeg hon derbyniodd y llywydd frysneges oddiwrth Mr. D. A. Thomas, A.S., ei fod yn analluog i fod yn bresenol oherwydd afiechyd; hefyd oddiwrth Dr. Jones, Blaenafon, llywydd pwyllgor. Y siaradwr cyntaf oedd y Parch. T. Salathiel (B.), cadeirydd Bwrdd Ysgol y Faenor, fel cyd-weinidog â Mr. Davies ar y Cefn. Yn ganlynol, siaradwyd gan Mr. B. P. Evans, ysgolfeistr Treharris, fel ffrynd i Mr. Davies; y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, fel cynrychiolydd yr enwad; Cynghorwr Thomas Morris, Y H., Taff Brae, fel cyd-warcheidwad; Mr. Wm. Morgan, grocer, Cefn, fel cyd-aelod ar y Bwrdd Ysgol am chwe' mlynedd; a gan y Parchn. J. G. Jenkins, Dowlais, a D. J. Williams, Twynyrodyn, Merthyr, fel cyd-weinidogion yr enwad. Pryd hyn, darllenodd Mr. Morgan Thomas, Brynonen, ysgrifenydd, yr anerchiad; ac yn nesaf, cyflwynodd Mr Wm. Edwards, is-gadeirydd y pwyllgor, i Mr. Davies, y pictiwr, gwerth £7 7s; a chwd o arian, £112 7s 7c. Ar ol hyn, cafwyd anerchiadau gan y beirdd, sef Mr. Wm. Morgan, Cefn; Merthyrfab, ac Ab Hevin, Merthyr. Yn ystod y cyfarfod cafwyd unawdau a deuawdau gan y Mri. Tom Jones, Thomas Evans, a'r Parch. E. W. Thomas, Ebenezer, Cefn, yn cael eu cynorthwyo ar y berdoneg gan Miss Thomas, Brynonen, Cefncoed. Terfynwyd y cyfarfod trwy ganu "Hen Wlad fy Nhadau."

PRIODASAU.

Hydref 29ain, yn nghapel Twynyrodyn, Merthyr, gan y Parch. J. Hathren Davies, unwyd mewn glan briodas, Mr John Morgan, ŵyr i'r diweddar Thomas Hughes, Cefn, â Miss Maggie Prosser, y ddau yn perthyn i'r Hen Dy Cwrdd, ac yn fynychwyr cyson o'r Ysgol Sul.

Yn hapus bob amser boed Maggie a John,
Na chroesed un blinfyd eu gyrfa;
Na ddeued un cwmwl, na choded un dôn
I dori ar heddwch eu trigfa.

Tachwedd 14eg, yn nghapel Twynyrodyn, Merthyr, gan y Parch. J. E. Jenkins, Dowlais, Mr. Augustus Frederick Poyntz, 4, Cross Blanch Steeet, Dowlais, â Miss Jennett Evans, 2, Tunnel Terrace, ger llaw Cwm Bargoed.

"Tan ddeddf priodas addas, boed iddynt
Gydfyw'n gariadus, hwylus eu helynt,
Uwch gofidiau, chwerw iasau, a chroeswynt;
Gwiw nawdd Ion cadarn a'i rad fo arnynt
Ei wir hedd fo ar eu hynt;—yna'r nef,
Lawn tangnef, yn haddef, f'o yn eiddynt."

MARWGOFION.

AWST 12fed, Mr. James Jones, Moelhadoguchaf, Llandysul, yn 68 mlwydd oed. Mab ydoedd i'r diweddar William Jones, Gelliaur, a brawd y William Jones presenol, ac Evan Jones, Felin Rhydowen, teulu ag sydd wedi chwareu rhan nid bychan yn hanes Dyffryn Cletwr yn ysted y triugain mlynedd diweddaf. Perthynai i'r ymadawedig rinweddau a thalentau lawer, ac nid y lleiaf ohonynt oedd y ddawn gerddorol a'r ddawn i ddyweyd oedd mor nodweddiadol ohono. Diamheu, pe wedi cael manteision da yn moreu oes i roddi cyfeiriad priodol i'w dalentau, buasai yn wr athrylithgar, ac yn llanw rhyw gylch pwysig mewn cymdeithas. Yr oedd yn un naturiol o ysbryd llawen a digrifol, a phob amser yr un fath, ac yr oedd bod yn ei gwmpeini am ychydig yn ddigon i ymlid ymaith bob gofid a thristwch. Yr oedd yn gymydog heddychlawn a chyfaill gwresog i bawb, a phawb yn hoff ohono yntau. Y dydd Mercher canlynol i'w farwolaeth, claddwyd yr hyn oedd farwol ohono yn Mhantyefaid, lle yr oedd yn aelod ffyddlawn. Aed drwy'r gwasanaeth yn y ty, a phregethwyd gan y Parch. Arthur Thomas, a therfynwyd y gwasanaeth ar lan y bedd gan ei hen gyfaill, y Parch. T. Thomas, Y H. Nodded yr Arglwydd fyddo ar y weddw, y plant, a'r ŵyrion sydd mewn galar ar ei ol. (Oherwydd camddealldwriaeth, drwg genym na fuasai yr uchod wedi ymddangos yn gynt.)

HYDREF 12fed, yn 63 mlwydd oed, Jane, anwyl briod a chymhar Thomas Gittins, Trebanos. Bu ein chwaer gariadus yn troi mewn cylch eang hyd ei holaf awr. Darfu iddi weinyddu uwchben llawer o gyfeillion a chyfeillesau; ond daeth yr adeg i amryw o'r cyfryw wneyd felly iddi hithau. Daearwyd ei themi o glai, y Mawrth dilynol, wrth gapel yr Alltwen, dan nodded gweinidogaethol y Parch. E. H. Carston, Gosen, Trebanos, a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. T. J. Jenkins. Bydded i'r galarwyr, un ac oll, i osod pob ymddiried yn Nhad pob ysbryd.

HYDREF 14eg, John Williams, Postgwyn, Pencareg, yn 78 mlwydd oed. Cafodd y brawd ryw dair blynedd o gystudd, a chystudd pur galed ar rai adegau; ond dyoddefodd yr oll yn dra amyneddgar; ac ar y dydd uchod ehedodd ei ysbryd at Dduw, yr Hwn a'i rhoes. Mab ydoedd John Williams i'r diweddar hen batriarch David Williams, Lleiniau Cottage, ger Llanbedr, gwr cadarn, nerthol yn ei ddydd ar gyfrif ei graffder meddyliol, a'i ymroddi i chwilio am y gwirionedd, a'i barodrwydd a'i fedrusrwydd i'w amddiffyn lle bynag y byddai. Yr oedd llawer o nodweddion goreu y tad wedi disgyn i lawr i'r mab, ac yn llinellau amlwg iawn yn ei gymeriad. Yn ei farwolaeth, torwyd un yn rhagor o'r dolenau cydiol yn y gymydogaeth oedd yn cysylltu y gorphenol a'r presenol wrth eu gilydd. Bu ef yn aelod ffyddlon o eglwys Caeronen am lawer o flynyddau. Yr oedd ef hefyd yn un o sylfaenwyr mwyaf blaenllaw yr Ysgol Sul yn Nhy'nrheol, ger Llanbedr, a'r eglwys a sefydlwyd yn ddiweddar ch yn yr un lle, yr hon eglwys a esgorodd wedi hyny ar yr eglwys bresenol yn Mrondeifi, Llanbedr, a pharhaodd ei sêl a'i gariad at yr achos bob cam, ac yr oedd yn uu o'i garedigion goreu hyd y diwedd. Gadawodd i alaru ar ei ol ddau fab, ac un ohonynt yw y Parch. D. J. Williams Twynyrodyn, Merthyr; tair chwaer, heblaw llawer iawn o berthynasau ereill, a chyfeillion. Ar ddydd ei angladd, gwasanaethwyd gan y Parch. R. O. Jones, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. John Davies a Lewis Williams. Claddwyd yr hyn oedd farwol ohono yn Mynwent Brondeifi.

HYDREF 21ain, yn 53 oed, Mrs. Ann Thomas, priod Mr John Thomas, Pantglas, plwyf Llanarth. Merch ydoedd yr ymadawedig i David Thomas, Nantygwyddau, gwr parchus ac adnabyddus yn ei ddydd, ac yr oedd hithau wedi derbyn yn helaeth ei aml rinweddau. Cafodd yr ymadawedig gystudd maith a chaled, ond dyoddefodd y cyfan yn dawel. Claddwyd yr hyn oedd farwol ohoni y dydd Mercher canlynol yn Mhantydefaid, pryd y cyflawnwyd y

gwasanaeth arferol yn y tŷ gan y Parch. W. James, B.A., Y.H. Pregethwyd yn y capel, a gweddïwyd ar ïan y bedd gan y gweinidog, y Parch. Arthur Thomas. Gadawodd briod, un ferch (mabwysiedig), brawd, a chwiorydd, i alaru ar ei hol.

HYDREF 27ain, ar ol hir gystudd, yn 19 mlwydd oed, William, anwyl fab Evan Evans, Gwaralltyfardre, plwyf Llandysul. Claddwyd yn Mynwent Bwlchyfadfa, a gwasanaethwyd ar yr achlysur galarus i glywedigaeth tyrfa fawr gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca.

HYDREF 28ain, yn 50 oed, Mrs. Dinah Evans, priod y diweddar James Evans, Gyfeile, Llandysul. Gorchwyl trist ydyw gorfod cofnodi marwolaeth Mrs. Evans o dan amgylchiadau mor dorcalonus; ac yn ngwyneb amgylchiadau cyffelyb, geiriau'r Salmydd sydd oreu i'w defnyddio: "Aethum yn fud, ac nid agorais fy ngenau." Genedigol ydoedd o Cribyn, lle mae ei mam, Mrs. Jenkins, Mynach Villa, yn byw yn bresenol. Anaml y cyfarfyddir â benyw mor alluog ag ydoedd yr ymadawedig. Gweithiodd yn galed i ddwyn ei phlant i fyny, oherwydd collodd ei phriod er's rhyw 16 mlynedd yn ol, ac arni hi y gorphwysodd yr holl faich, a chariodd ef yn anrhydeddus. Yr oedd iddi barch neillduol yn mhlith ei chydnabod ar gyfrif ei charedigrwydd a'i gonestrwydd. Y dydd Mercher canlynol, daeth tyrfa anarferol o luosog yn nghyd i dalu y deyrnged olaf o barch iddi, pryd y claddwyd ei gweddillion marwol yn Mhantydefaid, lle yr oedd yn aelod ffyddlawn, a dygai fawr sêl dros yr achos yno. Aed drwy'r gwasanaeth arferol yn y ty, a phregethwyd gan y Parch. Arthur Thomas, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. J. Davies, R. C. Jones, a Lewis Williams. Nodded y Nefoedd fyddo dros y ddau fab a'r ddwy ferch sydd mewn galar dwfn ar ol colli un mor anwyl ganddynt.

HYDREF 30ain, yn 31 oed, John David Thomas, mab hynaf Mr. Thomas Thomas, Cwmdyllest, Llandysul. Ni chafodd yr ymadawedig ond cystudd byr iawn, a theimlir chwithdod wrth feddwl "ei le nid edwyn mohono ef mwy." Yr oedd yn fachgen ieuanc o gymeriad da, ac ar gyfrif ei garedigrwydd a'i wyleidd-dra, enillodd iddo ei hun gylch helaeth o gyfeillion yn y cylch yr oedd yn troi. Yr oedd o ysbrdy addfwyn a gostyngedig, ac yr oedd iddo air da gan bawb. Yr oedd yn aelod yn Mhantydefaid, a mynychai yr addoliad a'r Ysgol Sul yn gyson, ac anaml y gwelsid ei le ef yn wâg. Yn ngwyneb y colledion aml ydym wedi dderbyn yn ddiweddar, ein gweddi ydyw ar i'r Arglwydd ddanfon gweithwyr i'w winllan—y cynhauaf sydd fawr, a'r gweithwyr yn anaml. Dydd Gwener ar ol ei farwolaeth, hebryngwyd ei weddillion i Gladdfa Pantydefaid. Gwasanaethwyd gan y Parch. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. T. Thomas, Y.H.

HYDREF 30ain, yn 57 mlwydd oed, ar ol cystudd cymharol fyr, John Jones, Cwm Capel, Cefncoed Yr oedd yr ymadawedig yn ddyn tawel, unplyg ei gymeriad, ac yn barchus iawn gan ei holl gydnabyddiaeth. Daliai swydd o gryn gyfrifoldeb o dan Gwmni Glofeydd y Gyfarthfa, ac yr oedd gan bawb berffaith ymddiriedaeth ynddo fel dyn hollol onest ac uniawn. Dygasid ef i tyny gyda'r Annibynwyr, ond er's blynyddau bellach yr oedd ef a'i briod, a nifer o'r plant, wedi ymaelodi yn yr Hen Dy Cwrdd, ac yn ddiweddar etholwyd ef yn ddiacon. Heb son am y golled fawr yn y teulu, gwelir ei eisieu yn yr eglwys fel aelod, ac fel athraw ffyddlon yn yr Ysgol Sul. Mae yn anhawdd iawn hebgor dynion o'r fath. Mae y cynhauaf yn fawr a'r gweithwyr yn anaml, a bydd lle John Jones yn wâg mewn llawer cylch a lanwai mor ddeheuig. Gadawodd briod a theulu lluosog iawn i alaru eu colled fawr ar ei ol. Nodded y Nefoedd fyddo arnynt, ac addewidion yr Iesu a'u cysuront yn eu trallod blin. Y dydd Sadwrn canlynol, hebryngwyd ei weddillion gan dorf anarferol o fawr i orphwys yn mynwent yr Hen Dy Cwrdd. Gwasanaethwyd gan y gweinidog.

TACHWEDD 12fed, yn 20 mlwydd oed, David Davies, Dolwilym, plwyf Llanarth. Claddwyd yn Mynwent Bwlchyfadfa, lle yr oedd yn aelod hardd o eglwys Iesu Grist; a chyflawnwyd y gwasanaeth gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca.

Joseph Williams, Argraffydd, Swyddfa'r "Tyst" a'r "Cenad Hedd," Merthyr.

TALIADAU.—T. T., Bwlch; Mrs. E., Tregaron; D. T., Lerpwl; D. R., Watts Town.

☞ Gobeithio y cofia ein derbynwyr a'n dosbarthwyr fod tâl gyda'r rhifyn hwn. Yr wyf yn diolch yn wresog iawn i chwi am eich help a'ch cydweithrediad calonog dros dymhor fy ngolygyddiaeth.

YN AWR YN BAROD. Mewn Byrddau hardd. Crown wythplyg, tua 260 tudal. Pris 3s. *post free).*

"PETHAU NEWYDD A HEN:"

SEF CYFRES O

DRAETHODAU, PAPYRAU, ARAWDAU, &c., &c.,

AR BYNCIAU MOESEGOL, LLENYDDOL, A BEIRNIADOL,

Yn cynwys Papyrau ar yr Iaith Gymraeg; Diarebion Cymru, Caneuon Cysegredig Cymru, Ffugchwedlau, &c; hefyd y Traethawd Buddugol ar "Addoliad Cyhoeddus" yn Eisteddfod Eglwys Dewi Sant, 1898, ac amryw Draethodau Buddugol ereill.

GAN

D. DELTA EVANS, LLUNDAIN

("DEWI HIRADDUG"),

GYDA DARLUN O'R AWDWR.

Cyhoeddedig gan yr Awdwr, 59, Abbotsford Avenue, South Tottenham, London, N.

Adran Ysgol Sul y Gymdeithas Undodaidd.

YN AWR YN BAROD,

Gwersi ar yr Efengyl yn ol Luc. Rhan I.

PWNC ARHOLIAD SAFON 3 A 4, 1901.

PRIS WYTH CEINIOG.

Anfoner at W. James, Brynhyfryd, Llandysul.

Gofyniadau i Safon 1. Arholiad 1901.

PRIS 6ch. Y DWSIN.

Anfoner archebion am y ddau yn ddioedi at Mr. W. JAMES, Brynhyfryd, Llandysul.

Holwyddoreg ar Fywyd Iesu.

(YR AIL ARGRAFFIAD.)

PWNC SAFON 2. ARHOLIAD 1901.

Anfoner yn ddioedi at y Parch. D. EVANS, Cribin.